

Ffurflen Cyflwyno Sylwadau ar y Newidiadau

Ffocws – Canllawiau

Mae'r ddogfen Newidiadau Ffocws wedi'i seilio ar y newidiadau sydd wedi deilio o argymhellion yr Awdurdod ar ôl ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adneuo.

Mae'r Newidiadau â Ffocws hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol o ddydd Gwener 7 Rhagfyr 2018 tan 4.30pm ddydd Gwener 15 Chwefror 2019.

Mae'r ddogfen Newidiadau Ffocws arfaethedig ynghyd â'r dogfennau ategol a ffurflen cyflwyno sylwadau ar gael i'w gweld ar ein gwefan. Hefyd gallwch weld y ddogfen Newidiadau Ffocws ar-lein mewn llyfrgelloedd cyhoeddus sydd â chyfrifiaduron hygyrch yn ystod oriau agor arferol.

Dim ond sylwadau ar y Newidiadau Ffocws arfaethedig hyn y mae modd eu cyflwyno ar hyn o bryd.

Nid cyfle yw hwn i ychwanegu at sylwadau blaenorol, nac i wneud sylwadau newydd ar rannau o'r Cynllun Datblygu Lleol adneuo nad ydynt yn destun newid, gan na fydd yr Arolygydd yn ystyried unrhyw sylwadau newydd o'r fath. Bydd yr Awdurdod yn ymateb i'r sylwadau ar y Newidiadau Ffocws yn uniongyrchol i'r Arolygiaeth. Anfonir y sylwadau ymlaen at yr Arolygydd fydd yn ystyried y sylwadau hyn fel rhan o'r broses Archwilio.

Mae'r dogfennau ategol canlynol yn mynd law yn llaw â'r ddogfen Newidiadau Ffocws:

- Adendwm Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol: Asesiad o'r Newidiadau Ffocws
- Adendwm Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Asesiad o'r Newidiadau Ffocws
- Asesiad o Effaith y Newidiadau Ffocws ar Gydraddoldeb

Dylid anfon sylwadau ar y ddogfen Newidiadau Ffocws arfaethedig yn ysgrifenedig i'w derbyn erbyn 4.30pm ar Dydd Gwener 15 Chwefror 2019 at:

Pennaeth Cyfarwyddyd y Parc
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

Neu anfon sylwadau ar e-bost at devplans@pembrokeshirecoast.org.uk

Y camau nesaf

Disgwylir y bydd yr Archwiliad yn cael ei gynnal rywbryd fis Mawrth 2019. Bydd y

Swyddog Rhaglen yn ysgrifennu atoch ar wahân i roi gwybod i chi am ddyddiadau'r cyfarfodydd hyn a'r amserlen i'r dyfodol ar gyfer yr Archwiliad o'r Cynllun Datblygu Lleol.

Am ragor o wybodaeth neu gymorth, e-bostiwch devplans@pembrokeshirecoast.org.uk neu ffoniwch 01646 624800 a gofyn am siarad â rhywun yn y Tîm Cyfarwyddyd y Parc.

Neu cysylltwch â Mrs Caroline Llewellyn, y Swyddog Rhaglen fydd yn bwynt cyswllt rhwng yr Awdurdod, y Rhai a Gyflwynodd Sylwadau, a'r Arolygydd, ac a fydd yn cynorthwyo i fwrw ymlaen â'r Archwiliad.


Ffoniwch 01646 624800 / 07773 932339 neu e-bostiwch programmeofficer@pembrokeshirecoast.org.uk

Gwybodaeth Bellach a Chysylltiadau

Am fwy o gymorth ar y broses Newidiadau Ffocws neu'r Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol yn gyffredinol

 edrychwch ar ein gwefan (PCNPA.org.uk)

 e-bostiwch devplans@pembrokeshirecoast.org.uk neu

 cysylltwch â'r tîm Cyfarwyddyd y Parc yn Swyddfa'r Parc Cenedlaethol ar 01646 624800.